Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Aberdaugleddau
# Heol Steynton
# Aberdaugleddau
# Sir Benfro
# SA73 1AE

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aberdaugleddau

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Benfro yw Ysgol Aberdaugleddau. Mae 911 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n cynnwys 79 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigurau hyn yn is nag oeddent adeg yr arolygiad diwethaf, pan oedd 1,080 o ddisgyblion, gan gynnwys 154 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Aberdaugleddau a'r ardal wledig gyfagos. Mae tua 23% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17%. Mae bron i 27% o'r disgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn, Prydeinig, ac mae 1.8% o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae 20% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan un y cant o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%.

Nid oes pennaeth parhaol wedi bod yn yr ysgol ers diwedd Medi 2017. Mae'r dirprwy bennaeth wedi ymgymryd â swydd pennaeth dros dro yn ystod y cyfnod hwn. Mae gweddill yr uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol a thri uwch arweinydd dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gan Ysgol Aberdaugleddau ethos cynhwysol a gofalgar. Mae mwyafrif yr athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion, sy'n meithrin dysgu'n dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Caiff ymddygiad gwael ac agweddau negyddol lleiafrif o ddisgyblion effaith niweidiol ar fywyd ysgol, ac mae'n effeithio ar ddysgu ar draws pob grŵp blwyddyn hefyd. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar wella perfformiad ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Ar y cyfan, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn ac eang o lawer o brif gryfderau a gwendidau gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol ymagwedd ddigon cydlynus at ddatblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm, ac mae angen gwelliant brys ar yr addysgu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli ymddygiad yn aneffeithiol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 a gwella'r cynnydd a wna pob un o'r disgyblion mewn gwersi, yn enwedig eu datblygiad o ran medrau llythrennedd a rhifedd

A2 Gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu

A3 Gwella ansawdd yr addysgu

A4 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion

A5 Gwella ansawdd ac effaith yr arweinyddiaeth, yn enwedig trwy gryfhau'r trefniadau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

A6 Mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Er 2013, mae'r ysgol wedi sicrhau deilliannau sydd wedi gwella'n gyson mewn llawer o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, er bod deilliannau ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad yn 2017 yn cymharu'n ffafriol â deilliannau mewn ysgolion tebyg, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd mor gryf mewn gwersi. Nid yw medrau llythrennedd a rhifedd mwyafrif y disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd digon cryf o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Ym mwyafrif y gwersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth yn briodol wrth gwblhau gwaith newydd. Yn y gwersi hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o gysyniadau newydd. Mewn rhai gwersi, lle mae gweithgareddau pwrpasol a thasgau difyr, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn crynhoi eu canfyddiadau'n gydlynus ac yn llunio casgliadau dilys wrth ddisgrifio effeithiau gweithgarwch helaeth ar bobl a'r amgylchedd.

Mewn rhai gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol. Er enghraifft, mewn Saesneg, gallant drafod a dadlau dwy ochr y ddadl dros y gosb eithaf yn dda. Yn ystod cyfnodau tiwtor, mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn trafodaethau dosbarth ar themâu testunol, materion cymdeithasol a materion cyfoes.

Mewn gwersi, mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n astud ar athrawon ac ar eu cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon gofalus ar gyfarwyddiadau athrawon, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol mewn tasgau. Mewn rhai gwersi, o gael cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn egluro'u syniadau'n dda. Maent yn cynnig atebion estynedig meddylgar, er enghraifft pan fyddant yn cynnal trafodaethau tra rhesymedig am agweddau ar arweinyddiaeth Robert Mugabe mewn hanes. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn darparu atebion byr ar lafar, heb eu datblygu'n ddigonol, i gwestiynau athrawon.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau darllen sylfaenol ac yn eu mwynhad o ddarllen. Mae llawer ohonynt yn dod o hyd i wybodaeth yn hyderus, ac mae lleiafrif ohonynt yn anodi testunau'n briodol. Mewn rhai pynciau, mae disgyblion gallu uwch yn dadansoddi testunau'n fanwl, er enghraifft wrth archwilio sut caiff pobl ifanc yn eu harddegau eu portreadu yn y cyfryngau. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig mewn medrau darllen pwysig fel rhesymu a dod i gasgliad o destunau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n gydlynus ac yn gywir yn unol â'u hoedran a'u gallu, ond tua hanner ohonynt yn unig sy'n rhoi sylw digonol i'w hatalnodi, eu gramadeg a'u sillafu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o eirfa sy'n benodol i bwnc yn briodol. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu

darnau byr yn unig o ysgrifennu mewn ystod gyfyngedig o arddulliau. Mewn rhai pynciau, ble rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion ysgrifennu ar gyfer ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd, gwnânt ddatblygiad cryf yn eu hysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu cofnodion dyddiadur yn disgrifio'n llawn cydymdeimlad fywyd ac emosiynau gweithiwr mudol o Fecsico.

Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn anghyson ar draws pynciau. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol i'w gwaith yn rheolaidd, ac at ei gilydd, cyfyngedig yw ymateb disgyblion i adborth athrawon.

Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ystod gallu yn meddu ar fedrau rhifedd cadarn. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth symleiddio ffracsiynau, cyfrifo tebygolrwydd a thalgrynnu rhifau. Yn gyffredinol, maent yn cymhwyso eu medrau'n briodol mewn pynciau heblaw mathemateg, er enghraifft wrth gwblhau tasgau trosi uned a mesur mewn gwyddoniaeth. Mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus i sefyllfaoedd newydd.

Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar gyfer ystod addas o weithgareddau. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu cyflwyniadau digidol mewn ieithoedd tramor modern ac yn creu taenlenni ac arolygon mewn gwersi Bagloriaeth Cymru. Mewn rhai pynciau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn datblygu medrau animeiddio defnyddiol ac yn defnyddio rhaglenni dylunio â chymorth cyfrifiadur yn hyderus.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyson er 2013. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg tan 2017. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A mewn TGAU neu gyfwerth ac mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd hwn yn is na pherfformiad ysgolion tebyg dros gyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn mewn ysgolion tebyg ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad merched dros yr un cyfnod islaw perfformiad merched mewn ysgolion tebyg tan 2017, pan wnaethant berfformio'n well na merched mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim wedi amrywio dros gyfnod ac wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o ran datblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Er 2014, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill cymhwyster lefel 2 cwrs llawn yn y Gymraeg yn sylweddol isel.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad dros gyfnod yn y dangosyddion allweddol wedi amrywio. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi bod

islaw perfformiad ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y graddau uwch hefyd wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel uwch yn 2017 ymhell uwchlaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn gadarnhaol ynglŷn â'u dysgu ac mae ganddynt ddyheadau uchelgeisiol ar gyfer eu dyfodol. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda â'u cyfoedion a'u hathrawon ac yn egluro'u syniadau'n glir a hyderus pan fyddant yn trafod materion testunol a materion cyfoes. Yn gyffredinol, maent yn dangos safonau uchel yn eu gwaith ac mae ganddynt wybodaeth bynciol ddatblygedig.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Caiff ymddygiad gwael ac agweddau negyddol lleiafrif o ddisgyblion effaith niweidiol ar fywyd ysgol, ac mae'n tarfu ar ddysgu ar draws pob grŵp blwyddyn yn ogystal. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn dangos digon o ystyriaeth am eu cyd-ddisgyblion yn ystod amser egwyl ac amser cinio neu wrth symud o gwmpas yr ysgol, er eu bod yn gwrtais ag ymwelwyr. Nid yw rhai disgyblion yn dangos parch at eu cyfoedion nac at aelodau o staff ac maent yn anghwrtais pan gânt eu herio am eu gweithredoedd neu'u hymddygiad.

Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ar y cyfan. Maent yn cyrraedd yn brydlon, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr ac mae hyn yn tarfu ar eu dysgu nhw eu hunain, a dysgu disgyblion eraill. Mae rhai disgyblion yn araf yn ymdawelu mewn gwersi, ac maent yn ymddieithrio am gyfnodau hir. Mae'r disgyblion hyn yn dangos agweddau gwael at ddysgu ac yn dangos diddordeb cyfyngedig yn eu gwaith. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd annigonol.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae mwyafrif y disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ymateb yn briodol i achosion o fwlio.

Mae tua hanner y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd byw yn iach a bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall sut gall bwyta ac yfed yn afiach effeithio ar eu hiechyd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dyfeisio a pharatoi bwydlen cinio iach mewn technoleg. Mae rhai disgyblion yn cymryd rhan yn amrywiaeth eang gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol, er enghraifft trwy gynrychioli'r ysgol mewn gweithgareddau cerddorol neu chwaraeon neu gymryd rhan yn rhaglen Pobl Ifanc Actif yr awdurdod lleol. Mae rhai disgyblion yn arwain gweithgareddau gwerthfawr fel paratoi gwasanaeth ar wrthfwlio, trefnu prom Blwyddyn 11 a chynllunio gweithgareddau i godi arian ar gyfer elusennau lleol. Dros gyfnod, mae disgyblion wedi cymryd rhan yn dda mewn ystod eang o weithgareddau codi arian ac wedi codi swm sylweddol o arian at achosion da.

Trwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion yn rhannu eu safbwyntiau am ystod o faterion, gan gynnwys penderfyniadau am ddylunio'r llyfrgell newydd a chit chwaraeon. Mae cyfranogiad disgyblion yn y broses gwneud penderfyniadau yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r arweinwyr digidol wedi ysgrifennu polisi 'Trwydded Ddigidol' am ddisgyblion yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain yn yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella ond wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwella ac mae'n uwch na phresenoldeb yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae nifer y dyddiau a gollir yn sgil gwaharddiadau tymor hir wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'n uchel.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn anfoddhaol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn a chyfoes, ac maent yn fodelau iaith da. Mae'r mwyafrif ohonynt yn sefydlu perthnasoedd gweithio da gyda disgyblion sy'n meithrin dysgu'n dda. Er enghraifft, mewn cyfnodau tiwtor, mae athrawon a disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau buddiol am yr hyn sy'n cymell ac ysbrydoli'r disgyblion. Maent hefyd yn trafod trefniadau i'r dosbarth weithio mewn partneriaeth ag eglwys leol i gefnogi elusen adeg y Nadolig. Mae mwyafrif yr athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, mae cyflwyniadau athrawon i weithgareddau'n rhy hir ac maent yn cyfarwyddo'r dysgu'n ormodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb ac nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

At ei gilydd, mae gan fwyafrif yr athrawon ddisgwyliadau isel o ddisgyblion o ran cyflawniad academaidd ac agweddau at ddysgu. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn herio'n ddigonol y disgyblion nad ydynt yn dyfalbarhau â thasgau neu sy'n dangos agweddau negyddol.

Mae lleiafrif o athrawon yn paratoi adnoddau diddorol i ysgogi dysgu. Er enghraifft, mae dangos pwt o ffilm am ddamwain ar Everest yn dal dychymyg y disgyblion mewn gwers Saesneg. Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddigwyddiadau cyfoes yn y newyddion i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y dysgu, er enghraifft trafodaethau yn ystod gwers hanes ar etholiadau arlywyddol sydd ar fin digwydd mewn gwledydd eraill.

Ym mwyafrif y gwersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau digon heriol i alluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae rhai athrawon yn defnyddio holi medrus i ddatblygu ymatebion a dealltwriaeth disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn herio meddwl y disgyblion ac yn ennyn eu diddordeb mewn dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon yn archwilio meddwl a dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da. Caiff hyn effaith niweidiol ar gynnydd disgyblion mwy abl yn arbennig.

Mae tua hanner yr athrawon yn rhoi adborth llafar buddiol mewn gwersi. Mae lleiafrif o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol mewn llyfrau sy'n dangos i ddisgyblion yn glir sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr adborth ysgrifenedig yn rhoi gwybod i ddisgyblion yn ddigon clir pa mor dda y maent yn gwneud na beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Ychydig o athrawon yn unig sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'w sylwadau.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion. Mae'n adeiladu'n briodol ar ddysgu disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu dewis priodol o bynciau academaidd a galwedigaethol i fodloni anghenion disgyblion, fel cyfrifiadureg a gwallt a harddwch.

Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cydweithio â Ffederasiwn De Sir Benfro er mwyn darparu ystod addas o ddewis cwricwlwm. Mae'r ysgol yn trefnu'r cwricwlwm yn dda i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'n gweithio'n greadigol i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ddarparu cyrsiau diddorol a gwerthfawr. Fodd bynnag, nid oedd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi cael effaith ddigonol ar ddeilliannau ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Mae rhai o feysydd y cwricwlwm yn creu cynlluniau gwaith a ystyriwyd yn ofalus er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu dysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cynllunio ar gyfer dilyniant mewn medrau sy'n benodol i bwnc ac mewn medrau llythrennedd a rhifedd yn wan ar draws llawer o bynciau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'i hysgolion cynradd partner i ddatblygu gweithgareddau llythrennedd a rhifedd addas ar gyfer medrau disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion sydd â medrau llythrennedd a rhifedd gwan pan fyddant yn dechrau ac mae'n darparu rhaglen ymyrraeth effeithiol.

Nid oes gan yr ysgol ddull cydlynus o ran datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm. Er bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael ei gynllunio a'i nodi'n glir ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ysgol yn arfarnu datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn ddigon da. Mewn lleiafrif o feysydd y cwricwlwm, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, mae llyfrynnau 'Go 4 it' yn darparu cyd-destun perthnasol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae datblygu medrau trwy Fagloriaeth Cymru yn nodwedd gref. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer cyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ac ymarfer eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant

At ei gilydd, mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar. Fodd bynnag, nid yw polisïau a gweithdrefnau i reoli ymddygiad a hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn monitro ac olrhain cynnydd cyffredinol unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn briodol ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'n gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth hon i nodi disgyblion sydd angen cymorth academaidd ychwanegol. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau addas ar gyfer y disgyblion hyn ac yn gwneud defnydd priodol o anogwyr dysgu, er enghraifft i gynorthwyo disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae olrhain a monitro effeithiol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad ar ddiwedd Blwyddyn 11, ond nid yw wedi cael effaith ddigonol ar rai agweddau

pwysig fel deilliannau ar gyfer disgyblion mwy abl dros gyfnod. Yn ychwanegol, nid oes gan yr ysgol systemau digon cryf i fonitro presenoldeb ac ymddygiad grwpiau o ddisgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac yn olrhain eu cynnydd yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau datblygu unigol yn briodol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaethau defnyddiol i gefnogi addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ceir anghysondeb o ran pa mor dda y mae athrawon yn cymhwyso'r strategaethau hyn mewn gwersi. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ymweld â'r ysgol yn anffurfiol.

Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys sylwadau defnyddiol ac yn nodi targedau buddiol ar gyfer gwella ymhellach. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni i ddathlu llwyddiannau a chyflawniadau disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cylchlythyrau rheolaidd a phostio yn y cyfryngau cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol ac ar gyfer y rheiny sy'n symud i'r chweched dosbarth. Mae trefniadau pontio cynlluniedig gydag ysgolion cynradd lleol, gan gynnwys rhaglen 'Whale of a time', yn galluogi disgyblion i ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad priodol i ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau am ddysgu a gyrfa yn y dyfodol.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod werth chweil o brofiadau chwaraeon a diwylliannol allgyrsiol, er enghraifft syrffio, rygbi cadair olwyn, dawnsio a'r eisteddfod flynyddol. Yn ychwanegol, cynhelir teithiau lleol a thramor amrywiol a gwerthfawr sy'n cyfrannu'n effeithiol at brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau â Gŵyl Lenyddiaeth y Gelli Gandryll, Chateau de Broutel yn Ffrainc a theithiau i gemau pêl-rwyd a rygbi rhyngwladol. Ceir ystod addas o weithgareddau allgyrsiol i ddatblygu medrau creadigol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys grŵp theatr, band chwythbrennau a band pres a chôr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth effeithiol i'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed. Mae'n darparu ystod gynhwysfawr o ymyriadau buddiol i gefnogi datblygiad cymdeithasol y disgyblion hyn. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni gwerthfawr i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu, cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc a boreau coffi rheolaidd er mwyn ymgysylltu â rhieni'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol, ysbrydol a moesol trwy wersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gwasanaethau, gwersi addysg grefyddol a chyfnodau cofrestru yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion drafod a myfyrio ar ystod o faterion moesol a dathlu amrywiaeth a chydraddoldeb. Rhoddir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Mae trefniadau'r ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn briodol.

Nid yw trefniadau'r ysgol i reoli ymddygiad a delio ag achosion o ymddygiad gwael yn ddigon effeithiol. Ar bob lefel, mae gormod o amrywiad yng ngoddefgarwch staff o aflonyddu ar lefel isel mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac yn eu cysondeb wrth

gymhwyso’r polisi ymddygiad. O ganlyniad, mae achosion o ymddygiad gwael wedi dod yn fwy cyffredin ac mae gwaharddiadau cyfnod penodol wedi cynyddu’n sylweddol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn mynd trwy gyfnod o newid ar hyn o bryd. Er Hydref 2017, mae’r dirprwy bennaeth wedi ymgymryd â rôl pennaeth dros dro. Adeg yr arolygiad, mae lleiafrif o uwch arweinwyr wedi’u secondio i’r tîm arweinyddiaeth mewn swydd dros dro sy’n cael ei hwyluso gan gyllid rhaglen Her Ysgolion Cymru. Bydd y secondiadau hyn yn dod i ben yn ystod y flwyddyn academaidd.

Yn ystod cyfnod byr iawn, mae’r pennaeth dros dro wedi cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer gwella’r ysgol, gyda phwyslais ar gryfhau’r ffocws cymunedol a hyrwyddo dyheadau uchel. Mae staff, rhieni a disgyblion yn gefnogol i’w harweinyddiaeth dros dro ac mae hi wedi meithrin ethos tîm cryf ymhlith staff.

Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar wella perfformiad ym mwyafrif y dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4, yn ogystal â gwella trefniadau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gosod disgwyliadau digon uchel am ymddygiad disgyblion, eu hagweddau at ddysgu, ac ansawdd yr addysgu. Nid yw’r gweithredu i wella ymddygiad wedi bod yn ddigon cyflym, ac o ganlyniad, mae ymddygiad wedi dirywio.

Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn glir ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw cyfrifoldebau strategol wedi’u hamlinellu’n ddigon clir i alluogi arweinwyr i fonitro gwaith y rheiny y maent yn rheolwyr llinell arnynt. Mae cyfarfodydd rheolwyr llinell yn canolbwyntio’n dda ar gynnydd a deilliannau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth. Fodd bynnag, ni chaiff ansawdd y ddarpariaeth ei drafod na’i arfarnu’n ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan fwyafrif o arweinwyr canol ddealltwriaeth ddigon clir o’r cryfderau a’r gwendidau mewn addysgu yn eu hadrannau.

Ar y cyfan, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau a gwendidau gwaith yr ysgol. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn nodi llawer o’r cryfderau hyn a’r meysydd i’w gwella ac mae’n cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad. Fodd bynnag, mae rhai pethau pwysig wedi cael eu hepgor o’r adroddiad, fel y diffyg yn y gyllideb, a safonau mewn Cymraeg. Mae arweinwyr wedi gwneud defnydd cyfyngedig o ganfyddiadau o arsylwadau gwersi a chraffu ar waith i arfarnu safonau medrau disgyblion yn arbennig.

Ceir cysylltiadau clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun gwella’r ysgol ac mae blaenoriaethau yn y cynllun yn briodol ym mwyafrif y meysydd ar y cyfan. Fodd bynnag, gan nad yw arweinwyr wedi nodi rhai meysydd pwysig sydd angen eu gwella, nid eir i’r afael â nhw yn y cynllun gwella. Nid yw rhai o’r targedau ar gyfer gwella yn ddigon manwl gywir.

Mae arweinwyr yn cwblhau ystod addas o weithgareddau hunanarfarnu buddiol fel arsylwadau gwersi, craffu ar waith, cyfweliadau â disgyblion ac adolygiadau adrannol a thematig. Fodd bynnag, nid yw’r ysgol yn arfarnu ansawdd na gwerth y gweithgareddau hyn yn ddigon da, nac yn gwneud y defnydd gorau o’u

canfyddiadau. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn cael darlun cwbl glir a chywir o effeithiolrwydd eu gwaith na'r meysydd allweddol sydd angen eu gwella. Er enghraifft, mae arfarniadau o wersi yn rhy hael o ran eu barnau ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynnydd disgyblion na safonau eu medrau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr gynllunio ar gyfer gwella yn ddigon manwl gywir.

Pan mae hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi bod yn effeithiol, mae arweinwyr wedi canolbwyntio ar feysydd penodol o waith yr ysgol, mae wedi arfarnu'r ddarpariaeth a'i heffaith yn ofalus ac wedi rhoi camau gweithredu manwl gywir ar waith. Er enghraifft, trwy wrando ar ddisgyblion a chraffu ar eu gwaith, cydnabu arweinwyr fod angen newid y system asesu a bu'n gweithredu'n bendant i roi polisi newydd ar waith, sy'n fwy effeithiol erbyn hyn. Er bod y gweithgareddau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn werthfawr ynddynt eu hunain, mae gormod ohonynt, maent yn creu gormod o waith papur ac nid yw eu diben yn ddigon clir. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddigon manwl ar wella agweddau penodol fel ymddygiad disgyblion.

Mae ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ymhlith adrannau yn amrywio'n eang. Yn gyffredinol, nid yw adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn darparu arfarniad cyflawn o safonau a chynnydd disgyblion gan fod llawer ohonynt yn gwneud defnydd cyfyngedig o ganfyddiadau o wersi a chraffu ar waith ac nid ydynt yn dadansoddi data arholiadau manwl yn ddigon manwl.

Mae prosesau rheoli perfformiad yn gadarn, ac yn cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu diwylliant o gydweithio lle mae staff yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod a rhannu eu harfer. Fodd bynnag, nid eir i'r afael yn ddigon trylwyr â thanberfformio.

Gall staff elwa ar ystod addas o hyfforddiant yn yr ysgol a gyda darparwyr allanol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau brecwast wythnosol i hyrwyddo arfer orau mewn addysgu. Nid yw'r gweithgareddau hyn wedi sicrhau gwelliannau digonol yn ansawdd yr addysgu. Mae gan yr ysgol raglen gymorth gynhwysfawr ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso, ond nid yw'r cymorth a'r hyfforddiant ar gyfer uwch arweinwyr wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, ni chaiff effaith gweithgareddau dysgu proffesiynol ei harfarnu'n ddigon da.

Mae'r corff llywodraethol wedi ymrwymo i'r ysgol ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o gyd-destun yr ysgol. Mae dealltwriaeth llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn gadarn ar y cyfan. Mewn rhai meysydd, nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â diffygion, yn enwedig o ran ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

Mae'r ysgol yn cynnwys nifer briodol o staff ac adnoddau. Caiff y nifer fach o staff sy'n addysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc eu cynorthwyo'n briodol. Mae'r pennaeth dros dro, y corff llywodraethol a'r rheolwr busnes yn monitro cyllideb yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, mae diffyg yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o gyllid grant, fel grant datblygu'r disgyblion. Mae deilliannau disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 4 yn amrywio dros gyfnod.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/02/2018